**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mawrth 2013**

## ADOLYGIAD O'R PENODIAD STATUDOL A'R CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AR GYFER RÔL Y SWYDDOG MONITRO

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybodaeth i aelodau am yr adolygiad yr ymgymerwyd ag ef ynglŷn â phenodiad statudol a'r cytundeb lefel gwasanaeth am wasanaethau Clerc/Swyddog Monitro.

2 Ceisio cymeradwyaeth i adnewyddu'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer darparu clerc, swyddog monitro, cyngor cyfansoddiadol a gwasanaethau eraill i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Diben y Rôl

3 Mae tri phrif ran i rôl y Clerc/Swyddog Monitro:-

3.1 Rôl statudol Swyddog Monitro dan adran 5 o Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y'i diwygiwyd). Dyletswydd i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau'n gyfreithlon, sicrhau cyfreithlondeb a thegwch wrth wneud penderfyniadau, cefnogi'r Pwyllgor Safonau, ymdrin â materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant ar gyfer yr Aelodau ar hwnnw ac ar faterion moesegol.

3.2 Clerc i'r Awdurdod – sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu gweinyddu yn unol â'r statudau perthnasol, y rheoliadau a'r Cyfansoddiad, ac ymdrin â materion cyfreithiol a gweithdrefnol ar gyfer yr Awdurdod. Cadw'r Cyfansoddiad yn gyfoes ac yn berthnasol. Cyflawni'r materion sy'n cael eu cadw ar gyfer y Clerc, ac a ddarperir ar eu cyfer yn y Cyfansoddiad.

3.3 Trefniadau cyffredinol o ran Llywodraethu a Democratiaeth, gan gynnwys:

- y Cod Llywodraethu Corfforaethol
- ymgysylltu â'r Aelodau a Siarter yr Aelodau
- Cynllun Lwfansau'r Aelodau
- rolau unigryw, er enghraifft, y grŵp lleihau risg, archwilio a chymryd rhan yn y broses o benodi Prif Swyddogion.

## Gwybodaeth

4 Darperir ar gyfer y gwasanaethau hyn dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth pedair blynedd a gomisiynwyd ddiwethaf gan Gyngor Sir y Fflint am wasanaethau eu Prif Weithredwr, Colin Everett, a'i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fel Dirprwy i gyflawni'r rôl hon, yn 2008. Daeth y cytundeb i ben ar 31ain Mawrth 2012. Fodd bynnag, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mehefin 2012, cytunodd yr Awdurdod i ymestyn y cytundeb am gyfnod o flwyddyn.

5 Yn ystod y cyfnod hwn o flwyddyn manteisiwyd ar y cyfle i adolygu'r ffordd y caiff y swyddogaeth hon ei darparu. Mae rhai Awdurdodau Tân ac Achub yn cyflogi swyddog llawn amser yn Glerc a Swyddog Monitro, ond nid yw'r llwyth gwaith yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gofyn am y lefel hon o ymrwymiad. Mae rhai Awdurdodau eraill yn cyfuno'r rôl gyda swyddi eraill, ond mae hynny'n gallu creu gwrthdaro rhwng buddiannau felly penderfynwyd parhau â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag un o'r Awdurdod Lleol yn Ngogledd Cymru.

6 Mantais ychwanegol i'r trefniant hwn yw cadw'r berthynas waith dda a'r llif o gyngor annibynnol a gwybodaeth gydag uwch-gydweithwyr yn y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru drwy fynd ati'n allanol i benodi Clerc a Thrysorydd i'r Awdurdod.

7 Oherwydd natur y cytundeb hwn, sef Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn hytrach na chontract proffesiynol, a chyda'r elfen ychwanegol sef dangos enghraifft o gydweithio yng Ngogledd Cymru, cynigir bod yr Awdurdod yn parhau â'r cytundeb tan ddiwedd oes yr Awdurdod Tân ac Achub presennol.

8 Buwyd yn ailnegodi'r ffi ar gyfer y trefniant hwn, a'i leihau o £16,500 i £11,000 y flwyddyn, sy'n ymorol am ffi bersonol i'r Clerc, y Dirprwy Glerc a'r gefnogaeth weinyddol.

## Argymhelliad

9 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo bod y cytundeb lefel gwasanaeth cyfredol yn cael ei adnewyddu i ddarparu clerc, swyddog monitro, cyngor cyfansoddiadol a gwasanaethau eraill i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.